

Cylch Meithrin Y Felinheli

Polisi Gwirfoddolwyr

Bydd **Cylch Meithrin Y Felinheli** yn sicrhau bod rhieni a gofalmwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn drwy y wybodaeth sydd i'w gael yn y llyfryn rhieni, copi o'r polisi ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan neu drwy ei ddarllen yn y ffeil bolisiau sydd yn cael ei gadw yn y Caban.

Nod

Galluogi'r Cylch Meithrin i fanteisio ar gyfraniad oedolion addas i gyfoethogi ac ymestyn profiadau'r plant sydd dan ein gofal. Gall hyn hefyd cynnwys gwirfoddolwyr o dro i dro i helpu gyda staff sy'n absennol oherwydd salwch neu sydd ar gwrs.

Amcanion

- Sicrhau bod pawb yn deall pwysigrwydd eu cyfraniad ond eu bod yn atebol i'r arweinydd ac mai hi sy'n gyfrifol am bob penderfyniad yn y pen draw.
- Sicrhau mwy o sylw unigol i'r plant e.e. wrth ddarllen.
- Datblygu dealltwriaeth o'r ffyrdd y mae'r Cylch Meithrin yn gweithio, trefn ddisgyblu ayyb.
- Bydd y Person Cofrestredig/Arweinydd yn penderfynu pa mor aml ac am ba gyfnod y bydd gwirfoddolwyr yn bresennol
- Bydd y Person Cofrestredig/Arweinydd yn gwirio os bydd yr unigolyn yn addas. Os bydd angen, gellir gofyn am eirida
- Nid oes angen archwilio pobl a fydd yn dod i gysylltiad afreolaidd yn unig â phlant am gyfnodau byr
- Rhaid i'r Person Cofrestredig/Arweinydd egluro yn union beth a ddisgwylir gan y gwirfoddolwr

Canllawiau

- Bydd y gwirfoddolwyr yn rhoi eu hamser a'u harbenigedd am ddim. Disgwylir i staff y Cylch Meithrin a phlant fod yn ymwybodol o hyn, a thrin gwirfoddolwyr gyda pharch a chwarteisi.
- Bydd Arweinydd y Cylch yn egluro trefn y sesiwn, gan gynnwys canllawiau lechyd a Diogelwch megis ymarfer tân, cymorth cyntaf, ac yn gosod tasgau penodol e.e darllen/chwarae gyda'r plant, helpu plentyn penodol â gweithgaredd
- Cynorthwyo yn unig fydd swydd y gwirfoddolwyr o fewn y dosbarth i wrando ar blant yn darllen a chwarae ac nid i arwain ayyb. heblaw mewn achosion arbennig.
- Byddwn yn ceisio sicrhau fod ein gwirfoddolwyr yn ddwyieithog, yn enwedig os byddant yn rhai hirdymor.
- Anogir pob gwirfoddolwr i ddod yn gyfarwydd â threfn a rheolau disgyblaeth y Cylch, safon iaith, dangos parch at blant ayyb.
- Os bydd gwirfoddolwr newydd yn bwriadu bod yn y Cylch yn rheolaidd am dymor hir, mae'n bosibl sicrhau gwiriad DBS
- Rhaid i'r gwirfoddolwr arwyddo'r llyfryn ymwelwyr
- Rhaid ymdrin â phob mater sy'n ymwneud â'r Cylch yn hollol gyfrinachol

- Os bydd plentyn yn datgelu unrhyw beth yn ymwneud ag amddiffyn plant, dylai'r gwirfoddolwr hysbysu'r arweinydd heb ofyn unrhyw gwestiynau i'r plentyn
- Ni chaiff y gwirfoddolwr ddisgyblu unrhyw blentyn
- **Ni chaiff unrhyw wirfoddolwr ei adael ar ei ben/phen ei hun gyda phlant**

Casgliad

- Gall gwirfoddolwyr gyfoethogi bywyd y Cylch Meithrin i'r staff a'r plant trwy ehangu gorwelion a chynnig profiadau gwahanol sy'n hybu datblygiad y plant.